**Cyngor Sir y Fflint – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet ddydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2024**

| **Rhif Eitem Agenda a Chofnod o Rif Penderfyniad** | **Testun** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|

**Rhan A - Eitemau a ystyriwyd yn gyhoeddus**

| | | |
|---|---|---|
| **2 / 4313** | Datgan Cysylltiad | Dim. |
| **3 / 4314** | Cofnodion | Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd fel cofnod cywir. |
| **4 / 4315** | MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Dim. |
| **5 / 4316** | Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2025/26 | (a) Nodi a derbyn y gofyniad cyllideb ychwanegol diwygiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26;<br><br>(b) Nodi'r cynnydd a wnaed i ganfod atebion i bontio'r bwlch yn y gyllideb, a nodi'r opsiynau sy'n weddill sydd ar gael i osod cyllideb gyfreithiol a mantol unwaith y bydd y setliad amodol wedi'i gadarnhau;<br><br>(c) Nodi a chroesawu'r cynnydd a nodir yn y Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Dros Dro; a<br><br>(d) Anfon llythyr at Lywodraethau Cymru a'r DU yn nodi pryder y Cyngor na ellir gadael penderfyniad ar fater cyfraniad Yswiriant Gwladol Cyflogwyr Llywodraeth Leol tan y gwanwyn a bod yn rhaid ei ddatrys cyn gosod cyllidebau Awdurdodau Lleol yng Nghymru. |
| **6 / 4317** | Ymgynghoriad ar y Parc Cenedlaethol | (a) Ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, nid yw'r Cabinet yn cefnogi'r cynnig i |

| **Rhif Eitem Agenda a Chofnod o Rif Penderfyniad** | **Testun** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| | newydd arfaethedig ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru | greu Parc Cenedlaethol newydd ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru; a<br><br>(b) Dirprwyo geiriad terfynol yr ymateb sydd ynghlwm i'r adroddiad i'r Aelod Cabinet Economi, Amgylchedd a Hinsawdd ar y cyd â'r Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi). |
| **7 / 4318** | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Ddatgarboneiddio | Cefnogi cyflwyno cam nesaf y rhaglen buddsoddi cyfalaf i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Safonau Ansawdd Tai Cymru sydd newydd eu diweddaru a'r Strategaeth Datgarboneiddio arfaethedig. |
| **8 / 4319** | Monitro Cyllideb Refeniw 2024/25 (Mis 7) | (a) Nodi'r effaith ariannol amcangyfrifedig ar gyllideb 2024/25;<br><br>(b) Cymeradwyo cyllid o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer costau tipio anghyfreithlon; a<br><br>(c) Cefnogi'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i wella'r sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. |
| **9 / 4320** | Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2024/25 | Bod yr Adroddiad Canol Blwyddyn drafft ar Reoli'r Trysorlys 2024/25 yn cael ei argymell i'r Cyngor Sir ar 28 Ionawr 2025 i'w gymeradwyo'n derfynol. |
| **10 / 4321** | Dileu Ardrethi Busnes | Cymeradwyo dileu Trethi Busnes gwerth cyfanswm o £30,427.45 ar gyfer Cineworld Cinemas Limited. |

**Cyngor Sir y Fflint – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet ddydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2024**

| **Rhif Eitem Agenda a Chofnod o Rif Penderfyniad** | **Testun** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **11 / 4322** | Gwasanaeth Incwm Rhent Tai - Newid y Portffolio Adrodd | Bod y gwasanaeth Incwm Rhenti Tai yn cael ei drosglwyddo o'r portffolio Llywodraethu i'r portffolio Tai a Chymunedau. |
| **12 / 4323** | Ail-gomisiynu Contractau Cefnogaeth yn ôl yr Angen y Grant Cymorth Tai | Cymeradwyo ail-gomisiynu / ail-dendro Gwasanaethau Cymorth fel y bo'r Angen Sir y Fflint a ariennir gan y Grant Cymorth Tai. |
| **13 / 4324** | Adennill Costau am Gefnogi Digwyddiadau Cyhoeddus sy'n Effeithio ar y Briffordd | Er mwyn cyflawni'r targed arbedion a osodwyd o fewn y gyllideb ar gyfer 2024/25 gan y Cyngor, cymeradwyo'r canlynol:<br><br>i) cyflwyno polisi ffurfiol; a<br>ii) y fethodoleg ar gyfer adennill costau llawn ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus effeithio ar neu ar y briffordd. |
| **14 / 4325** | Cynlluniau gan Gomisiwn y Gyfraith i Ddiwygio Deddfwriaeth Claddu ac Amlosgi | (a) Nodi'r newidiadau arfaethedig i gyfraith claddu ac amlosgi y mae Comisiwn y Gyfraith yn ymgynghori arnynt; a<br><br>(b) Cymeradwyo cyflwyno'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ran Cyngor Sir y Fflint. |
| **15 / 4326** | Parth Buddsoddi ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam | (a) Cymeradwyo'r Safleoedd Trethi a nodwyd (Porth Glannau Dyfrdwy, Warren Hall ac Ystad Ddiwydiannol Wrecsam) ac Ardaloedd Trethi Wrth Gefn (Porth Glannau Dyfrdwy ac Ystad Ddiwydiannol Wrecsam); |

| **Rhif Eitem Agenda a Chofnod o Rif Penderfyniad** | **Testun** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| | | (b) Cymeradwyo'r Model Llywodraethu arfaethedig;<br><br>(c) Cymeradwyo Themâu'r Parth Buddsoddi (Arloesi, Sgiliau a Thrafnidiaeth) a'r ymyriadau lefel uchel, a fydd yn cael eu mireinio fel rhan o Borth 4; a<br><br>(d) Trefnu sesiwn friffio ar gyfer yr holl Aelodau. |
| **16 / 4327** | Arolwg Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru o’r Gwasanaethau Cymdeithasol Tachwedd 2023 - Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu | Bod y cynnydd a wnaed wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith yn cael ei gydnabod a'i gefnogi. |
| **17 / 4328** | Dyfodol y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Integredig | (a) Cymeradwyo'r cynigion yn yr adroddiad; a<br><br>(b) Penderfynu ar y broses o sicrhau cefnogaeth wleidyddol i'r cynnig. |
| **18 / 4329** | Cynnig i Ehangu Gofal Plant Dechrau’n Deg yn Sir y Fflint | (a) Cymeradwyo a chefnogi ehangiad Dechrau'n Deg Cam 3, gan adeiladu ar y datblygiadau o Gam 1 a Cham 2, a'r cynlluniau cyfalaf mawr a bach; a<br><br>(b) Cymeradwyo cynnwys y tri opsiwn i'w cynnwys mewn Achos Busnes i Lywodraeth |

| **Rhif Eitem Agenda a Chofnod o Rif Penderfyniad** | **Testun** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| | | Cymru (LIC) ar gyfer cyflwyno rhaglenni yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn seilio'r dyfarniad grant yn y dyfodol ar eu cyllid sydd ar gael a'r ceisiadau a dderbyniwyd o bob rhan o Gymru. |
| **19 / 4330** | Adroddiad Galw i Mewn - Gweithredu Newid Casgliadau Gwastraff Gweddilliol ac Adolygu Polisi | (a) Nodi penderfyniad cyfarfod galw i mewn Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi ynghylch Cofnod Rhif 4307; a<br><br>(b) Diwygio penderfyniad blaenorol y Cabinet i gynnwys y sylwadau a dderbyniwyd gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi ar Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a'r polisi trwyddedau cerbydau (dangoswyd manylion y gwelliant yn atodiad 2 i'r adroddiad). |
| **20** | YMARFER PWERAU DIRPRWEDIG | Nodiadau. |

**Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) 1985 - Ystyried gwahardd y wasg a'r cyhoedd**
Bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd am weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig o dan baragraff(au) 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

| | | |
|---|---|---|
| **21 / 4331** | Rhaglen Drawsnewid | (a) Cymeradwyo'r meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu pa brosiectau sy'n gymwys i'w cynnwys yn y Rhaglen Trawsnewid Strategol (STP); a<br><br>(b) Cymeradwyo'r pum prosiect, pob un wedi bodloni'r meini prawf, i'w cynnwys yn y STP. |

**Cyngor Sir y Fflint – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet ddydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2024**

| **Rhif Eitem Agenda a Chofnod o Rif Penderfyniad** | **Testun** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **22 / 4332** | Cambrian Aquatics | Cymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol i Cambrian Aquatics, yn amodol ar asesiad o gydymffurfiaeth â deddfwriaeth rheoli cymhorthdal ac yn unol â'r amodau a drafodwyd yn ystod y cyfarfod. |